# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Mehefin 2001 i'w hateb ar 10 Gorffennaf 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Prif Weinidog:

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch unrhyw gynigion sydd ganddo i ddathlu pen-blwydd cyntaf y Glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Lafur yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ12455)

**2. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddweud sut y mae'n hyrwyddo'r berthynas rhwng Cymru a rhanbarthau Lloegr. (OAQ12457)

**3. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag aelodau newydd Cabinet San Steffan i feithrin cysylltiadau â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ12448)

**4. Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidog newydd y DU dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau i grisialu'r modd y bydd Sant Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydlynu polisi. (OAQ12459)

**5. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa mor aml y bydd yn cyfarfod gyda'r Cabinet yn ystod y cyfnod pan na fydd y Cynulliad llawn yn eistedd. (OAQ12447) [W]

**6. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A yw wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch effaith diwygio system y pwyllgor dethol ar y berthynas rhwng y Cynulliad a gweddill y Deyrnas Unedig. (OAQ12466)

**7. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar sut y caiff adnoddau ac arbenigeddau'r sector preifat eu cyflwyno at ddiben rhedeg gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. (OAQ12453)

**8. Gareth Jones (Conwy);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidog newydd y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i grisialu effaith ffurfio ei hadran newydd ar y modd y bydd San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydlynu polisi. (OAQ12458)

**9. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol a amlinellwyd yn Araith y Frenhines a'i heffaith ar ddatblygiad polisi yng Nghymru. (OAQ12467)

**10. David Davies (Mynwy);** A oes cynlluniau i ddatblygu polisïau newydd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn gweision cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ12450)

**11. Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda chynrychiolwyr undebau llafur yng Nghymru ynghylch y polisïau a gynigir yn Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ12471)

**12. Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch y Mesur Troseddau a'i effaith ar heddluoedd Cymru. (OAQ12473)

**13. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff adrodd ar hynt ei ymdrechion i gydlynu polisi er lles pobl y Gogledd. (OAQ12470)

**14. Geraint Davies (Rhondda);** Beth fydd effaith Gweinyddiaeth newydd y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y modd y mae San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydlynu polisi. (OAQ12460)

**15. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Sut mae'r mesurau a gyflwynwyd ers cyhoeddi Rhoi Cymru'n Gyntaf wedi cyfrannu at ddatblygu polisïau i wella gwasanaethau cyhoeddus. (OAQ12456)

**16. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff adrodd sut y mae themâu traws-bynciol y Cynulliad, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a threchu anfantais gymdeithasol, wedi llywio ei ymdrechion i hybu cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill. (OAQ12469)

**17. David Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff roi adroddiad ar hynt yr ymdrechion i gyflawni agweddau traws-bynciol targedau 2003 yn gwellcymru.com. (OAQ12463)

**18. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff roi adroddiad ar y manteision a ddaeth i Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn sgil 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'. (OAQ12454)

**19. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau newydd ynghylch datblygu'r berthynas rhwng Cymru a'r rhanbarthau yn Lloegr. (OAQ12462)

**20. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A yw wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol

ynghylch sut fyddai diwygio system y pwyllgor dethol yn effeithio ar y berthynas rhwng y Cynulliad a gweddill y Deyrnas Unedig. (OAQ12465)

**21. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth a allai ei dilyn i geisio diogelu buddiannau Cymru yn y broses o ehangu'r UE. (OAQ12452)

**22. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff adrodd ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda gweinidogion y DU ynghylch effaith rhaglen ddeddfwriaethol newydd llywodraeth y DU ar ddatblygiad polisïau yng Nghymru. (OAQ12461)

**23. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd rôl Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol yn y trafodaethau am amseriad y refferendwm ar yr Ewro. (OAQ12472)

**24. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei ymweliad diweddar â Chynhadledd Eryr Gwyn, Draig Goch – Gwlad Pwyl a Chymru: Partneriaid mewn Undeb Ewropeaidd Ehangach.(OAQ12468)

**25. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pryd wnaiff adrodd wrth Gyfarfod Llawn y Cynulliad ar hynt yr ymrwymiadau trawsbynciol a wnaed yn gwellcymru.com. (OAQ12464)

**26. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa effaith a gaiff swyddfa'r Cabinet sydd newydd ei ddiwygio yn Whitehall ar y modd y bydd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydlynu polisïau. (OAQ12449)

**27. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei rôl fel cydlynydd swyddogaethau Cabinet y Cynulliad. (OAQ12451)